Y Bwrdd Rheoli
Management Board

MB (05-09) Papur 1 (Rhan1)
Adroddiad Rheolaeth Ariannol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

MB (05-09) Papur 1

Dyddiad: 11 Mehefin 2009
Amser: 08.45
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B
Enw a rhif ffôn yr awdur: Chris Koehli, Pennaeth Dros Dro Cyllid, est. 8054

Adroddiad Rheolaeth Ariannol: Alldro dros dro wedi'i ddiweddaru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan y Bwrdd Rheoli a barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar y fewnrwyd

Diben a chrynodeb o'r materion dan sylw

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am berfformiad dros dro'r gyllideb ar gyfer 2008-09.

2. Dyma'r ***negeseuon allweddol***:

   - Y gwariant cyffredinol hyd yma eleni yw £43.920 miliwn, sef tanwariant o 4.9% yn erbyn cyllideb o £46.181 miliwn. Mae hyn yn fwy na'r goddefiant o 2% ar ddiwedd y flwyddyn ac mae 2.7% yn fwy na'r alldro a ragwelwyd ym mis Chwefror.

   - Dyma'r prif resymau dros y tanwariant terfynol:

     - tanwariant yn y gwasanaethau o £0.519 miliwn (1.1%);
     - goramcangyfrif o ddibrisiant £0.915 miliwn (2%); a
     - tanwariant o £0.827 miliwn (1.8%) yng Nghyflogau a Lwfansau'r Aelodau

   - Mae'r prif reswm dros y cynnydd o 2.7% yn y tanwariant o'i gymharu â'r cynnydd a ragwelwyd ym mis Chwefror yn gysylltiedig â'r swm a bennwyd ar gyfer dibrisiant (£0.915 miliwn) a'r ffaith bod y gostyngiad yng ngwerth y Pierhead yn llai nag a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. (£0.320 miliwn).

   - Ffigyrau dros dro yw'r rhain ac mae'n bosibl y byddant yn newid yn dilyn archwiliad yn ystod yr wythnosau nesaf.

Argymhelliad

3. **Bod y Bwrdd yn nodi'r perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn nes cyhoeddir yr adroddiad alldro terfynol ar ôl cwblhau'r Cyfrifon.**

4. Risgiau - gwendidau

⊗ Nid yw'r perfformiad cyllidebol cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 yn cyd-fynd â'r alldro a ragwelwyd oherwydd bod y taliadau ariannol wedi'u goramcangyfrif.

⊗ Bydd angen ailasesu dibrisiant ar gyfer 2009-10 a'r blynyddoedd wedyn i sicrhau bod y ddarpariaeth a ddyrannwyd yn gywir.

5. Cyfleoedd - cryfderau

✓ Oherwydd y tanwariant yng nghyllideb Cyflogau a Lwfansau Aelodau am yr ail flwyddyn yn olynol, mae'n bosibl y bydd modd rhyddhau arian yn 2009-10 i'w ddefnyddio yn y gyllideb ehangach.

Y SEFYLLFA ARIANNOL

1. Perfformiad y gyllideb rhwng mis Ebrill – mis Mawrth 2008- 09

Gwasanaeth	Y gyllideb wreiddiol (£'000)	Symiau y cytunwyd i'w trosglwyddo (£'000)	Y gyllideb ddiwygiedig (£'000)	Alldro hyd yma yn ystod y flwyddyn (£'000)	Amrywiant %	Alldro a ragwelwyd (£'000)	Gwir amrywiant o'i gymharu â'r alldro a ragwelwyd %
Yr Uned Gorfforaethol	1,474	197	1,671	1,677	0	1,639	-2
Y Gwasanaethau Cyfreithiol	577	-90	487	464	5	486	4.7
	2,051	**107**	**2,158**	**2,141**	**1**	**2,124**	**-1**
Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU							
Adnoddau Dynol	1,130	340	1,470	1,471	0	1,507	2
Rheoli Ystadau a Chyfleusterau	9,555	1,614	11,169	11,289	-1	11,169	-1
Y Gwasanaethau Ariannol	930	-211	719	747	-4	737	-1
Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau	13,664	-513	13,151	12,324	6	12,349	0
TGCh	4,053	631	4,684	4,645	1	4,591	-1
Cyfathrebu Allanol	2,751	-651	2,100	2,048	2	2,069	1
	32,083	**1,210**	**33,293**	**32,524**	**2**	**32,421**	**0**
CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD							
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau	1,800	-196	1,604	1,569	2	1,603	2
Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth	989	-112	877	874	0	880	1
Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi	1,935	-135	1,800	1,777	1	1,778	0
Gwasanaeth y Pwyllgorau	1,248	-157	1,091	1,082	1	1,086	0
Yr Uned Gydgysylltu	148	-50	98	93	5	93	0
	6,120	**-650**	**5,470**	**5,395**	**1**	**5,441**	**1**
Is-gyfanswm	**40,254**	**667**	**40,921**	**40,060**	**2**	**39,956**	**0**
Dibrisiant a llog tybiannol	4,775	-	4,775	3,860	19	5,095	24
Is-gyfanswm	**45,029**	**667**	**45,696**	**43,920**	**5**	**45,081**	**3**
Cronfa wrth gefn heb ei dyrannu	1,152	-	485	-	-	-	
Cyfansymiau	**46,181**	**667**	**46,181**	**43,920**	**5**	**45,081**	**3**